# Bwrdd Rheoleiddiol Cymru
# Adroddiad Blynyddol 2016-2017

**Rheoleiddio Tai – cyflawniadau, heriau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol**

Fel Cadeirydd y Bwrdd Rheoleiddiol hoffwn nodi barn y Bwrdd ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn gyfredol ym maes rheoleiddio tai a'r sector cymdeithasau tai yn ehangach, ynghyd â'r heriau a'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Bu'n flwyddyn gyntaf brysur iawn i'r Bwrdd Rheoleiddiol newydd, gyda'r sector cymdeithasau tai yn cael ei ailddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal ymchwiliad i drefn reoleiddio cymdeithasau tai yn ystod ein misoedd cyntaf.

**Datblygu'r Bwrdd Rheoleiddiol newydd.** Fel unrhyw grŵp newydd, mae'r Bwrdd wedi gorfod gweithio ar ein ffordd o weithredu a meithrin cysylltiadau effeithiol â'r sector yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

- Fel Cadeirydd, rwyf wedi blaenoriaethu'r gwaith o gysylltu'n uniongyrchol â chynifer o aelodau byrddau cymdeithasau tai â phosibl, gan fynychu, cadeirio a siarad mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a drefnwyd ar gyfer y sector. Mae ymgysylltu ag aelodau Byrddau ac aelodau Gweithredol cymdeithasau wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

- Mae'r Bwrdd wedi mynychu digwyddiadau lle y bo'n bosibl er mwyn dangos presenoldeb cryf a gweladwy mewn digwyddiadau allweddol.

- Yn dilyn pob un o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoleiddiol, rwyf wedi anfon llythyr personol at bob un o Gadeiryddion Byrddau Cymdeithasau Tai yn nodi trafodaethau a phenderfyniadau allweddol y Bwrdd Rheoleiddiol yn y cyfarfod hwnnw.

- Mae ein cyfarfodydd wedi'u cynnal mewn ystafelloedd Bwrdd cymdeithasau tai ledled Cymru.

- Mae ein haelodau yn cymryd rhan mewn trafodaethau heriol ag uwch aelodau o'r tîm rheoleiddio, gan fanteisio i'r eithaf ar y sgiliau eang ac amrywiol o amgylch y bwrdd.

- Rwy'n ysgrifennu erthyglau yn rheolaidd ar gyfer nifer o gyhoeddiadau tai sy'n canolbwyntio ar elfennau rheoleiddio a llywodraethu.

- Rydym wedi cryfhau effeithiolrwydd a chapasiti ein bwrdd ein hun i ychwanegu gwerth at y rheoleiddiwr a'r sector drwy alwadau cynadledda misol a gynhelir rhwng uwch swyddogion y tîm rheoleiddio a digwyddiadau datblygu'r bwrdd.

- Yn yr hydref, byddwn yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r cynnydd a wnaed gennym wrth ddatblygu fel Bwrdd drwy ddigwyddiad a hwylusir gan Academi Cymru.

Rydym wedi buddsoddi amser yn meithrin cysylltiadau â'r sector ehangach drwy'r Grŵp Cynghori ar Reoleiddio (GCR) – ein grŵp rhanddeiliaid – sy'n ystyried pob un o eitemau agenda'r Bwrdd cyn iddynt gael eu hystyried gan y Bwrdd ei hun. Mae hyn yn sicrhau bod barn rhanddeiliaid yn cael ei hystyried gennym bob amser.

**Clywed Llais Tenantiaid.** Un o flaenoriaethau cyntaf y Bwrdd oedd adolygu sut mae llais tenantiaid yn cael ei glywed yn y broses reoleiddio er mwyn sicrhau eu bod wrth wraidd gweithgarwch rheoleiddio yng Nghymru. Comisiynwyd adolygiad o effaith gwaith y Panel Cynghori Tenantiaid (PCT) a ddaeth i'r casgliad bod angen cyflwyno newidiadau er mwyn sicrhau y gall y Bwrdd gasglu amrywiaeth ehangach a mwy amrywiol o safbwyntiau tenantiaid. Ymddengys i ni fod cynigion TPAS Cymru yn cynnig cyfle i fabwysiadu dull gweithredu newydd a fydd yn gwneud hynny. Rydym nawr yn dechrau ar brosiect heriol – ac, ym marn rai, dadleuol – er mwyn sicrhau ein bod yn clywed lleisiau cynifer o denantiaid â phosibl. Rwyf i'n bersonol yn cadeirio ein grŵp Cyflawni a sefydlwyd i oruchwylio'r broses gyflawni ac sy'n cynnwys cadeirydd blaenorol TAP. Roedd hwn yn gam beiddgar gan y Bwrdd ond roedd yr aelodau'n teimlo'n gryf nad oedd parhau heb newid radical yn opsiwn.

**Ymateb effeithiol i'r broses ailddosbarthu.** Cydnabuwyd yn gynnar bod angen gwaith rheoleiddio cadarn parhaus yng nghyd-destun y nifer llai o reolaethau rheoliadol sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y sector cymdeithasau tai yn dychwelyd i'r sector preifat. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi nodi'n glir bod angen i newidiadau sydd eu hangen mewn ymateb i'r broses ailddosbarthu symud y sector ymlaen yn gadarnhaol, gan sicrhau bod cymdeithasau yn y sefyllfa orau posibl i gyflawni eu nodau a'u hamcanion. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at roi fframwaith rheoleiddiol diwygiedig ar waith, gan gynnwys fframwaith dyfarniadau newydd a safonau perfformiad newydd. Roedd hwn yn gam beiddgar arall gan y Bwrdd.

Rydym wedi cyflwyno'r newidiadau hyn ar frys – llai na chwe mis o'r drafodaeth gyntaf i'ch lansiad chi – a gyda llawer iawn o gyfranogiad, a chytundeb gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys y sector, benthycwyr a thenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau.

Rydym o'r farn bod hwn yn gyflawniad sylweddol o ystyried yr hanes hir o fethu â chytuno ar unrhyw gynigion blaenorol i gyflwyno dyfarniadau rheoleiddiol. Yn ogystal â bod yn gam allweddol yn y broses o symud y sector yn ôl i'r sector preifat, rydym am i'r dull gweithredu newydd hwn ysgogi trylwyredd newydd o ran y ffordd y mae cymdeithasau yn ystyried gwaith rheoleiddio.

Mae'r tîm rheoleiddio wedi gweithio'n ddiwyd gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a llywodraethau eraill y DU i nodi a chytuno ar y rheolaethau rheoleiddio a gaiff eu dileu/newid drwy ddiwygiadau rheoleiddiol. Mae proses ymgynghori'n mynd rhagddi ar hyn o bryd i gadarnhau'r diwygiadau rheoleiddiol angenrheidiol. Drwy gydol y broses, bu'n ddefnyddiol iawn cael ymrwymiad clir gennych chi a'r llywodraeth yn ehangach i gymryd y camau sydd eu hangen i sicrhau bod y sector

yn dychwelyd i'r sector preifat er mwyn iddo allu parhau i adeiladu cartrefi newydd, gan wneud cyfraniad sylweddol iawn at darged y Llywodraeth o sicrhau 20,000 o gartrefi.

Drwy gydol y broses, mae gwaith y tîm rheoleiddio wedi canolbwyntio ar sicrhau eglurder ynghylch prif gyfrifoldeb byrddau ymreolaethol ac annibynnol am berfformiad eu cymdeithasau tai. Caiff hyn ei grynhoi mewn datganiad cydymffurfiaeth newydd a gyflwynwyd gan y fframwaith rheoleiddiol newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i fwrdd y gymdeithas dai adolygu tystiolaeth ei fod yn cydymffurfio â'r safonau perfformiad newydd a chadarnhau'r gydymffurfiaeth honno.

**Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Drefn Reoleiddio Cymdeithasau Tai.** Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) wrthi'n llunio ei ganfyddiadau. Mae'r Bwrdd yn falch o nodi'r ymateb cadarnhaol a gafwyd yn gyffredinol gan y sawl sydd wedi rhoi tystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd y fframwaith rheoleiddiol a'r broses o'i roi ar waith. Cyflwynodd y Bwrdd ei dystiolaeth ei hun i'r Pwyllgor sy'n nodi ein safbwyntiau ein hunain

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16191

Rydym yn aros nawr am ganfyddiadau'r Pwyllgor. Ymateb i'r canfyddiadau hyn fydd un o brif flaenoriaethau'r Bwrdd eleni.

Un o'r themâu a welwyd hyd yn hyn o'r Pwyllgor yw'r angen i wella atebolrwydd y sector tai i'w randdeiliaid allweddol. Ategir hyn gan waith sy'n mynd rhagddo i ddefnyddio pŵer data, ar gyfer rheoleiddwyr a swyddogaeth dai ehangach Llywodraeth Cymru i ddechrau ond, yn y pen draw, i gefnogi gwelliannau gan y sector ac atebolrwydd i randdeiliaid. Mae camau cyntaf y prosiect hwn yn mynd rhagddynt, sef dwyn yr holl ddata cyfredol ar dai ynghyd mewn un lle ac ychwanegu adnodd delweddu data fel bod modd i bawb gael gafael ar y data'n hawdd.

**Adolygiadau Thematig.**

**Gwerth am Arian.** Comisiynodd y Bwrdd adolygiad o werth am arian, sy'n flaenoriaeth amlwg yn yr hinsawdd ariannol gyfredol. Dangosodd adroddiad ar gynnydd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017, yr effaith gadarnhaol y mae natur gydweithredol yr adolygiad thematig, a lywiwyd ac y pennwyd ei gwmpas gan grŵp yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, ar ddiwylliant gwerth am arian y sector. Hyd yn hyn, mae'r adolygiad wedi arwain at lunio cyfres gytûn o fesurau ariannol gwerth am arian a gaiff eu defnyddio gan y sector a chan y rheoleiddiwr i fonitro ymrwymiad y sector i sicrhau gwerth am arian a'i gynnydd tuag at gyflawni hynny. Er mwyn cael darlun cyflawn o werth am arian, bydd y gwaith yn parhau i edrych yn fanwl ar werth cymdeithasol a barn tenantiaid ynghylch gwerth am arian.

http://gov.wales/docs/desh/publications/170301-value-for-money-progress-report-feb-2017-cy.pdf

**Llywodraethu.** Ein pwnc ar gyfer y flwyddyn gyfredol yw llywodraethu, sy'n adlewyrchu barn glir y Bwrdd bod trefniadau llywodraethu da yn ategu sector

cymdeithasau tai diogel a llwyddiannus.  Bydd ein hadolygiad yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn adolygiad llywodraethu 2013 i greu darlun o'r cynnydd a wnaed ers 2013, ansawdd trefniadau llywodraethu cyfredol cymdeithasau tai a blaenoriaethau ar gyfer gwella/datblygiadau pellach.  Unwaith eto, rydym yn bwriadu cydweithio'n agos â'r sector a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn sicrhau bod y gwaith yn mynd i'r afael â'r prif faterion llywodraethu lle bo angen cymorth a newid. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y sector, gyda llawer o bobl yn gwirfoddoli i wneud mwy.

Ein nod, gyda phob un o'n hadolygiadau thematig, yw llunio darn ymarferol o waith sy'n gwneud gwahaniaeth yn hytrach nag adroddiad sy'n casglu llwch ar silff rithwir.

**Dysgu gwersi pan aiff rhywbeth o'i le.** Mae'r Bwrdd yn credu'n gryf bod rhai o'r gwersi gorau yn cael eu dysgu drwy werthuso problemau yn feirniadol.  Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm rheoleiddio wedi datblygu dull cadarn o ddysgu'r gwersi hynny ac mae'n gweithio gyda'r sector er mwyn sicrhau bod y gwersi'n cael eu rhannu'n effeithiol.  Rydym yn disgwyl gweld cynnydd wrth fynd ati i ledaenu'r gwersi hyn yn ystod y flwyddyn gyfredol.

Sicrhawyd bod llawer o'r gwaith y cyfeirir ato uchod wedi bod yn bosibl drwy ailstrwythuro'r tîm rheoleiddio er mwyn rhyddhau uwch aelodau i ymgymryd â gwaith dysgu ac atal strategol.  Er bod hyn wedi lleihau'r capasiti i gyflawni, gallwn adrodd bod nifer yr adroddiadau a'r barnau rheoleiddiol a gyhoeddwyd wedi cynyddu'n ddramatig o 4 yn 14/15 ac 16 yn 15/16 i 27 yn 16/17. Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, rhoddir barn reoleiddiol ar gyfer pob un o'r 34 o gymdeithasau tai mwy o faint.  Yn ogystal, mae cynigion yn cael eu cwblhau er mwyn sicrhau bod modd rheoleiddio'r nifer fawr o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig bach iawn yn effeithiol.  Mae hyn wedi bod yn bosibl drwy fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio hyd yn oed yn fwy ar risg a dull adrodd ar sail eithriadau.

Bu'n flwyddyn gyntaf brysur iawn. Rydym yn awyddus i gynnal y momentwm hwn er mwyn sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan yn y gwaith o sicrhau bod y sector yn y sefyllfa orau posibl i gyflawni ar gyfer tenantiaid a chymunedau nawr ac yn y dyfodol.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn rhoi blas i chi ar waith y Bwrdd Rheoleiddiol yn ystod ei 12 mis cyntaf a'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir

Helen White (Cadeirydd)
Bwrdd Rheoleiddiol Cymru